

## Canllawiau Castio S4C – Awst 2016

---

Mae S4C yn cyhoeddi'r canllawiau hyn er mwyn cynnig arweiniad i gynhyrchwyr wrth ddewis cast ar gyfer dramâu a gomisiynir gan S4C. Mae'r canllawiau'n nodi'r angen, yn gyffredinol, i osgoi gweld actorion yn ymddangos mewn mwy nag un gyfres tua'r un adeg. Wrth lunio'r canllawiau, rydym wedi anelu i daro cydbwysedd rhwng yr angen i warchod hygyrdd ein cyfresi drama a'u prif gymeriadau ac i ymateb i adborth y gynulleidfa ynglŷn â'r angen am amrywiaeth o wynebau, tra ar yr un pryd yn cydnabod yr angen i gynhyrchwyr fedru castio actorion sy'n addas i'r rôl.

Dyma ganllawiau i gynnig arweiniad i gynhyrchwyr wrth gastio:

1. Yn gyffredinol, ni ddylai actorion ymddangos mewn mwy nag un gyfres ddrama sy'n cael eu darlledu ar yr un pryd neu'n gyfagos i'w gilydd. Bydd hyn yn berthnasol i bob cyfres ddrama ar S4C, gan gynnwys cyfresi sebon Pobol y Cwm a Rownd a Rownd.
2. Ystyriwch bod cyfresi'n gyfagos i'w gilydd os bydd un gyfres yn dechrau llai na mis cyn diwedd cyfres arall. Yn achos cyfresi sebon, bydd y cyfnod o fis yn cael ei gyfrif o ymddangosiad cyntaf neu (fel bo'n briodol) olaf yr actor yn y gyfres.
3. At ddibenion y canllawiau hyn, dim ond y darllediad cyntaf ar wasanaeth teledu S4C fydd yn cyfrif, felly ni fydd unrhyw ail-ddangosiad ar y teledu neu argaeledd ar-lein yn cael ei gymryd i ystyriaeth.
4. Mae'r cyfyngiad ond yn berthnasol i gyfresi, felly ni fydd yn effeithio ar ymddangosiadau mewn ffilm neu ddrama unigol. Yn arferol, bydd y cyfyngiad hefyd yn berthnasol i gyfresi dwy neu dair rhan, ond dylid trafod hyn gyda'r Comisiynydd yn gyntaf.
5. Mae'r cyfyngiad yn berthnasol beth bynnag fydd hyd penodau unigol a phryd bynnag yn yr wythnos y cânt eu darlledu.
6. Bydd y cyfyngiad yn berthnasol i actorion sy'n ymddangos fel prif gymeriad mewn un gyfres neu fwy. Os yw un o'r ymddangosiadau mewn rôl eilradd neu fel ymddangosiad arbennig mewn un bennod neu nifer cyfyngedig o benodau, dylid trafod gyda'r Comisiynydd a fydd modd iddynt ymddangos yn y ddwy gyfres.

Gofynnir i'r cynhyrchwyr ddilyn y camau ymarferol canlynol:

1. Trafod gyda Chomisiynydd S4C cyn cynnal clyweliadau, er mwyn cael cadarnhad a fyddai'r dewisiadau o dan ystyriaeth yn bosibl o dan y canllawiau castio.
2. Gofynnir i gynhyrchwyr geisio castio a chytundebu actorion mewn da bryd cyn dechrau cynhyrchu.
3. Atgoffir cynhyrchwyr o'r angen o dan gytundeb TAC/Equity i anfon Taflen Gwybodaeth Cynhyrchu wedi ei chwblhau at Equity ynghyd â rhestr o'r cast dim hwyrach nag wythnos cyn dechrau'r prif ffotograffiaeth. Dylid ei hanfon at [cymru@equity.org.uk](mailto:cymru@equity.org.uk)

Noder mai canllawiau yw'r uchod a, lle'n briodol, bydd modd trafod amrywiadau mewn achosion unigol, i'w cytuno gyda Chomisiynydd S4C.